



Adroddiad Monitro Blynyddol

Safonau'r Gymraeg

2023-2024

Cynnwys

Rhagair	3
Crynodeb Gweithredol.....	4
Cefndir	5
Rhan 1: Adolygu 2023-24.....	6
Trosolwg	6
Strategaeth y Gymraeg mewn Gofal Iechyd	6
Hyfforddiant Cymraeg mewn Gofal Iechyd i Reolwyr	6
Ymchwiliad i Gydymffurfedd â Safonau 8-10	7
Ymchwiliad i Gydymffurfedd â Safonau 39 a 41	8
Grŵp Llywio Arweinwyr Gwasanaethau Cymraeg	8
Hyfforddiant Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg	8
Gwasanaeth Cyfieithu Cymraeg	9
Lefelau Sgiliau Cymraeg presennol yn BIAP	9
Rhan 2: Cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg.....	14
Safonau Cyflenwi Gwasanaethau.....	14
Safonau Llundio Polisi	25
Safonau Gweithredu	26
Cadw Cofnodion a Safonau Atodol	32
Fframwaith Mwy na Geiriau.....	33
Symud Ymlaen: Ein Blaenoriaethau ar gyfer 2024-25.....	44

Rhagair

Croeso i Adroddiad Blynyddol Bwrdd Iechyd Addysgu Powys ar Safonau'r Gymraeg yn 2023-24.

Mae'n bleser gennyf gyflwyno'r adroddiad hwn, sy'n adlewyrchu gwaith caled y Bwrdd Iechyd i wella gwasanaethau iechyd yng Nghymru.

Yn ogystal â'n cyfraniad at iechyd a lles pobl yma ym Mhowys, rydym yn cydnabod pwysigrwydd y Gymraeg yn ein gwaith. Drwy ddefnyddio'r Gymraeg, rydym yn annog cyfathrebu effeithiol gyda'n cymunedau, gan sicrhau bod gwasanaethau iechyd yn hygyrch ac yn agos at y bobl sydd eu hangen. Mae'n braf iawn gweld cynnydd parhaus yn y maes hwn ac edrychaf ymlaen at weld sut mae ein hymdrechion i gynyddu ansawdd a hyblygrwydd y dull o ymdrin â'r maes hwn o'n gwasanaethau iechyd yn parhau i ddatblygu dros y misoedd a'r blynyddoedd nesaf.

Hayley Thomas

Prif Weithredwr Dros dro

Mae Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg 2023-24 ar gyfer Bwrdd Iechyd Addysgu Powys yn dangos yr ymrwymiad parhaus i wella gwasanaethau Cymraeg o fewn y sector gofal iechyd. Dros y flwyddyn ddiwethaf, gwnaed camau sylweddol i sicrhau bod siaradwyr Cymraeg yn derbyn gofal teg o ansawdd uchel.

Un datblygiad nodedig yw cyflwyno'r cwrs hyfforddi newydd Cymraeg mewn Gofal Iechyd i Reolwyr. Nod y fenter hon yw arfogi rheolwyr â'r sgiliau a'r wybodaeth angenrheidiol i hyrwyddo defnydd y Gymraeg o fewn eu timau a sicrhau bod safonau'r Gymraeg yn cael eu bodloni'n gyson ar draws y bwrdd. Mae'r cwrs yn cwmpasu gwahanol agweddau, gan gynnwys strategaethau cyfathrebu, ymwybyddiaeth iaith a sensitifrwydd diwylliannol, gan feithrin amgylchedd cefnogol ar gyfer darparu gofal iechyd dwyieithog.

Ar ben hynny, mae'r adroddiad yn tynnu sylw at ddatblygiad a chyflwyniad ein Strategaeth newydd ar gyfer y Gymraeg mewn Gofal Iechyd. Mae'r strategaeth gynhwysfawr hon yn amlinellu amcanion a chynlluniau gweithredu'r Bwrdd Iechyd ar gyfer hyrwyddo a gwella gwasanaethau Cymraeg.

Mae'r adroddiad hefyd yn manylu ar y cynnydd o ran bodloni safonau'r Gymraeg ar draws gwahanol agweddau ar ddarparu gofal iechyd, gan gynnwys gofal cleifion, gweinyddiaeth a datblygu'r gweithlu. Mae ein hadroddiad yn dangos rhai o'r canlyniadau cadarnhaol hyn, gyda chynnydd mewn cydymffurfedd ar draws ystod o safonau a gwelliannau sylweddol mewn hyfforddiant ac ymwybyddiaeth staff.

Wrth edrych ymlaen, mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i fod yn ymroddedig i hyrwyddo ei ymrwymiad tuag at y Gymraeg. Mae'r cynlluniau ar gyfer y flwyddyn nesaf yn cynnwys ehangu'r cwrs hyfforddi Cymraeg mewn Gofal Iechyd i Reolwyr, gwreiddio strategaeth y Gymraeg ac ailwampio ein dull o ymdrin â'r Gymraeg wrth recriwtio.

Debra Wood-Lawson

Cyfarwyddwr Gweithredol y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol

Arweinydd Gweithredol y Gymraeg a Chydraddoldeb.

Crynodeb Gweithredol

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'r camau a gymerwyd gan BIAP i weithredu Safonau'r Gymraeg fel y nodwyd yn ein hysbysiad cydymffurfio.

Nodir manylion am y cynnydd a wnaed trwy gydol 2023-2024. Mae'r rhain yn cynnwys gwelliannau a wnaed yn y meysydd canlynol:

- Cyflwyno Cymraeg mewn Gofal Iechyd i Reolwyr fel rhan orfodol o gwrs hyfforddi Rheolwyr BIAP. Mae hyn yn sicrhau y bydd pob aelod o staff sydd â chyfrifoldeb arwain yn mynychu sesiwn 1.5 awr dan arweiniad arbenigwyr yn amlinellu eu cyfrifoldebau fel rheolwyr i sicrhau cydymffurfedd, gan gwmpasu nid yn unig gofynion y safonau ond hefyd Mwy na Geiriau a'r Cynnig Rhagweithiol. Y gobaith yw y bydd hyn yn llywio'r newid diwylliannol sydd ei angen i gyflawni ein cyfrifoldebau.
- Datblygu ein Strategaeth newydd ar gyfer y Gymraeg mewn Gofal Iechyd, mewn ymateb i ofynion Safon 110 a'r fframwaith Mwy na Geiriau ar gyfer y Gymraeg mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol.
- Datblygu ein hymateb i ddau ymchwiliad gan Gomisiynydd y Gymraeg.
- Cwblhau polisi'r Gymraeg yn y Gweithle i fodloni gofynion Safon 79.

Yn gyffredinol, mae'r bwrdd iechyd yn parhau i weithio i sicrhau cydymffurfedd â'r Safonau. Mae systemau ar waith i sicrhau bod y mwyafrif o'r safonau yn cael eu bodloni yn y mwyafrif o amgylchiadau. Mae'r bwrdd iechyd yn perfformio'n arbennig o dda mewn meysydd fel cyfathrebu a chyfryngau cymdeithasol, ac mewn meysydd lle mae systemau'n cael eu rheoli'n ganolog (e.e. prosesau recriwtio fel cynnig contractau, asesu sgiliau Cymraeg darpar ymgeiswyr a'u gwahodd i wneud cais yn Gymraeg/defnyddio'r Gymraeg yn y cyfweiliad.)

Ceir mwy o wybodaeth am yr uchod, ochr yn ochr â chyfrif manwl o gydymffurfedd y bwrdd iechyd yn erbyn pob un o'r Safonau yn Rhan 2 yn yr adroddiad hwn.

Cefndir

Rhaid i BIAP, ynghyd â Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau eraill yng Nghymru, gydymffurfio â chyfres o Safonau fel yr amlinellir yn [Rheoliadau Safonau'r Gymraeg \(Rhif 7\) 2018](#).

Er mai Gweinidogion Cymru sy'n pennu'r safonau, y Comisiynydd sydd i benderfynu pa safonau sy'n gymwys i gorff penodol. Ym mis Tachwedd 2018, cyflwynodd y Comisiynydd hysbysiad cydymffurfio BIAP a oedd yn amlinellu'r safonau sydd rhaid iddo gydymffurfio â nhw, a'r dyddiad erbyn pryd y mae'n rhaid iddo gydymffurfio. Mae copi o hysbysiad cydymffurfio BIAP ar gael [yma](#).

Fel rhan o'r Safonau hyn mae gofyniad i BIAP fonitro gweithrediad y Safonau a llunio Adroddiad Blynyddol (y ddogfen hon) sy'n rhoi manylion ar sut mae'r bwrdd iechyd wedi cydymffurfio â'r Safonau.

Rhaid i bob aelod o staff dwyn cyfrifoldeb am weithredu'r Safonau ar draws BIAP. Bydd Arweinwyr y Gwasanaethau'n monitro cydymffurfiaeth o fewn eu meysydd gwasanaeth eu hunain ac yn adrodd cynnydd i Reolwr Gwella Gwasanaethau'r Gymraeg a fydd yn cynghori ac yn cefnogi'r gwaith o weithredu'r Safonau yn unol â hynny. Ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol, bydd Rheolwr Gwella Gwasanaeth y Gymraeg yn drafftio adroddiad blynyddol a fydd yn cael ei gyflwyno i Arweinydd Gweithredol y Gymraeg a'i gymeradwyo gan y Pwyllgor Gwaith a'r Bwrdd cyn cael ei gyhoeddi ar wefan y bwrdd iechyd.

Mae'r fframwaith Mwy na Geiriau ar gyfer y Gymraeg mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn cyd-fynd â'r Safonau ac yn amlinellu sut y bydd y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru yn gwella eu gallu i ddarparu eu gwasanaethau yn Gymraeg, wedi'u trefnu o amgylch egwyddor y Cynnig Rhagweithiol - y syniad mai cyfrifoldeb darparwyr gwasanaethau yw cynnig cyfle i ddefnyddwyr gwasanaeth ddefnyddio'r Gymraeg heb gael eu holi.

Rhan 1: Adolygu 2023-24

Trosolwg

Buddsoddwyd cryn dipyn o amser ac ymdrech yn ystod y flwyddyn hon wrth gynhyrchu ein Strategaeth y Gymraeg mewn Gofal Iechyd, ac wrth ymateb i ddau ymchwiliad gan Gomisiynydd y Gymraeg a gynhaliwyd yn ystod y cyfnod.

Strategaeth y Gymraeg mewn Gofal Iechyd

Ein prif gyflawniad eleni oedd dylunio, datblygu, ymgynghori, cymeradwyo a chyhoeddi ein Strategaeth y Gymraeg mewn Gofal Iechyd 2024-2029. Mae'r ddogfen gynhwysfawr hon yn ymgorffori'r gofyniad i ddatblygu Cynllun Pum Mlynedd i gynyddu ein gallu i ddarparu Ymgynghoriadau Clinigol yn y Gymraeg yn unol â Safon y Gymraeg 110 yn ogystal â Strategaeth y Gweithlu sy'n ofynnol gan *Mwy na Geiriau*, a darparu cyfeiriad a thargedau cyffredinol ar gyfer datblygu ein gweithlu dwyieithog. Mae'r ddogfen ar gael ar wefan BIAP ac mae'n nodi sut rydym yn bwriadu datblygu ein gallu Cymraeg fel sefydliad dros y pum mlynedd nesaf.



Strategaeth y Gymraeg mewn Gofal Iechyd 2024-2029

Yn cynnwys:

- 1) Cynllun pum mlynedd i gynyddu gallu'r bwrdd iechyd i gynnal ymgynghoriadau clinigol yn y Gymraeg (Safon Cymraeg 110);
- 2) strategaeth hyfforddi a gweithlu Cymraeg wedi'i thargedu dan y Fframwaith *Mwy na Geiriau*.

Hyfforddiant Cymraeg mewn Gofal Iechyd i Reolwyr

Model good behavior

- Use whatever Welsh skills you have
- Begin / end meetings with Welsh greetings
- Be proactive in allowing staff to use their Welsh
- Promote internal processes in Welsh
- Do you know who the Welsh speakers are on your team?
- Consider setting personal and team objectives around Welsh and the Active Offer.



Do you have any good internal processes you'd like to share?

orfodol o'r rhaglen hyfforddi a ddarperir i holl staff y bwrdd iechyd gyda chyfrifoldebau arwain.

Mae'r cwrs yn cwmpasu pynciau megis:

- Y rhesymau moesol a diwylliannol pam mae darparu gwasanaethau yn y Gymraeg yn rhan angenrheidiol o arfer clinigol da, gan gyffwrdd â

Mae'r modiwl hyfforddi newydd hwn wedi'i gyflwyno a'i integreiddio i Raglen Hyfforddi Rheolwyr presennol Bwrdd Iechyd Addysgu Powys. Cynhaliwyd un sesiwn gydag 11 o fynychwyr yn ystod 2023-24, ond bydd y nifer hwn yn cynyddu yn y blyneddau i ddod gan ei fod bellach yn rhan

Recruitment: Applications & Interviews

Examples of interview questions to ask:

- How would you respond if you received a telephone call from someone speaking in Welsh?
- How do you think our department can support compliance with the Welsh language Standards / patients who wish to use Welsh?

Do any of you have any questions regarding recruitment?



phynciau fel Gorbryder Diwylliannol, yn ogystal ag amlinellu'r gofynion deddfwriaethol a strategol.

- Sut i ystyried y Gymraeg yn briodol wrth recriwtio.
- Sut i gyrchu gwasanaethau cyfieithu a chyfieithu ar y pryd a pham mae eu hangen arnynt.

Mae'r modiwl hyfforddi Cymraeg mewn Gofal Iechyd i Reolwyr yn gonglfaen i'n strategaeth ar gyfer cydymffurfio â'r Safonau a Mwy na Geiriau, gan helpu sicrhau bod y safonau'n dod yn 'fusnes fel arfer' ar draws y bwrdd iechyd.

Ymchwiliad i Gydfymffurfedd â Safonau 8-10

Derbyniodd y bwrdd iechyd hysbysiad o ymchwiliad y Comisiynydd (Cyf: CS1124) ar 28^{ain} Mawrth 2023, felly roedd rhaid i'r bwrdd iechyd gytuno ar delerau rhybudd yr ymchwiliad. Mewn gohebiaeth ddilynol gofynnwyd i ni anfon tystiolaeth ar gyfer y camau yr oeddem wedi'u cymryd o'r blaen i sicrhau cydymffurfedd. Ar yr 8^{fed} Medi cawsom Hysbysiad ac Adroddiad Terfynol yn rhoi manylion llawn yr ymchwiliad, y dystiolaeth a ddarparwyd gennym, a'n cyfarwyddo i gwblhau Cynllun Gweithredu erbyn 8^{fed} Rhagfyr.

Mae craidd yr ymateb yn canolbwyntio ar yr uwchraddiadau seilwaith arfaethedig, a fydd yn galluogi ailgyfeirio galwadau o amgylch y bwrdd iechyd yn ôl yr angen. Nododd y cynllun gweithredu a gymeradwywyd gan y Comisiynydd y saith cam gweithredu canlynol:

- 1) Gweithredu'r uwchraddiadau gofynnol i seilwaith teleffoni system ffôn BIAP i ganiatáu ailgyfeirio galwadau.
- 2) Datblygu a gweithredu proses trin galwadau gan ddefnyddio'r system newydd a fydd yn sicrhau cydymffurfedd â Safonau 8, 9, 10.
- 3) Sicrhau bod pob swydd wag yn y dyfodol ar gyfer rolau sy'n ymdrin â galwadau cychwynnol ar brif rifau ysbytai yn cael eu hysbysebu gyda sgiliau Cymraeg fel gofyniad hanfodol A/NEU gydag ymrwymiad i ddysgu lefel benodol o Gymraeg os cânt eu penodi.
- 4) Cynnal adolygiad o ganllawiau presennol BIAP ynghylch teleffoni er mwyn sicrhau cysondeb â chynghor y Comisiynydd a gofynion Safonau 8, 9 a 10, gan addasu neu ddisodli canllawiau yn ôl yr angen.
- 5) Cyflwyno sesiynau ymwybyddiaeth/hyfforddiant i'r holl staff sydd â chyfrifoldeb dros ymdrin â galwadau ar ofynion y safonau mewn perthynas â teleffoni.
- 6) Rhoi gwybod i'r holl staff sy'n gyfrifol am drin galwadau o'r cyfleoedd sydd ar gael i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg o fewn BIAP a thu hwnt.
- 7) Cymeradwyo'r Strategaeth Gymraeg mewn Gofal Iechyd i gynyddu sgiliau Cymraeg gweithlu BIAP.

Yn ystod 2023-24 rydym wedi cwblhau camau gweithredu 3, 4, 6 a 7, ac wedi gwneud cynnydd sylweddol gyda chymau gweithredu 1 a 5. Mae Cam Gweithredu

2 yn amodol ar gwblhau Cam Gweithredu 1. Rhagwelir y bydd yr holl gamau gweithredu yn cael eu cwblhau yn ystod 2024-25.

Ymchwiliad i Gydymffurfedd â Safonau 39 a 41

Derbyniodd y bwrdd iechyd hysbysiad o ymchwiliad y Comisiynydd (Cyf: CS1205) ar 23^{ain} Hydref 2023 i gydymffurfedd y bwrdd iechyd â'r ddwy safon hon, sy'n ymwneud â'r Wefan.

Mae'r Comisiynydd wedi cynnig y camau gorfodi canlynol:

1. Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu ei adnodd cyfieithu er mwyn sicrhau bod capasiti i gyfieithu cynnwys i'r Gymraeg yn brydlon ac yn gywir.
2. Rhaid i'r bwrdd iechyd gryfhau ei brotocolau sicrhau ansawdd ar gyfer cyfieithu cynnwys i'r Gymraeg er mwyn lleihau gwallau ac anghysondebau.
3. Rhaid i'r bwrdd iechyd gynnal archwiliadau rheolaidd o'i brif wefan i nodi a chywiro unrhyw wallau ac anghysondebau rhwng y wefan Gymraeg a Saesneg.
4. Rhaid i'r bwrdd iechyd ddatblygu (a rhannu gyda'r holl dimau perthnasol yn y sefydliad) brotocolau a chanllawiau clir ar gyfer creu, cyfieithu, a chyhoeddi cynnwys dwyieithog ar ei wefan.
5. Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu ei brosesau rheoli cynnwys i sicrhau nad oes modd cyhoeddi tudalen (Saesneg) ar wefan Saesneg heb hefyd gyhoeddi tudalen (Cymraeg) ar wefan y Gymraeg ar yr un pryd.
6. Rhaid i'r bwrdd iechyd roi digon o dystiolaeth ysgrifenedig i Gomisiynydd y Gymraeg bod camau gorfodi 1 i 5 wedi'u cwblhau. Amserlen: O fewn 3 mis o gyflwyno'r penderfyniad terfynol.

Rhodddwyd gwybod i'r Comisiynydd nad yw cam gweithredu 5 o fewn rheolaeth uniongyrchol y bwrdd iechyd gan fod hwn yn ymwneud ag ymarferoldeb System Rheoli Cynnwys MURA a reolir ar ran holl fyrddau iechyd y GIG gan Iechyd a Gofal Digidol Cymru; fodd bynnag, mae'r camau gweithredu eraill i gyd naill ai wedi'u cwblhau neu ar darged i'w cwblhau erbyn y dyddiad cau y cytunwyd arno ym mis Mai 2024.

Grŵp Llywio Arweinwyr Gwasanaethau Cymraeg

Mae'r grŵp hwn wedi parhau i gwrdd yn ystod y flwyddyn, gan roi cyfle i staff drafod a rhannu materion sy'n ymwneud â chydymffurfio â'r safonau yn ogystal ag ymgynghori ar strategaethau a datblygiadau. Roedd y grŵp hwn, er enghraifft, yn gyfle i staff roi adborth ar ddatblygiad Strategaeth y Gymraeg mewn Gofal Iechyd a chyfrannu ati.

Hyfforddiant Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg

Mae modiwl ESR Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg wedi bod yn sesiwn hyfforddi ar-lein orfodol i'r holl staff; mae wedi'i gwblhau gan 2283 o'n 2254 o staff presennol, 90% o'r cyfanswm.

Mae'r lefel hon o gwblhau yn debyg i fodiwlau hyfforddi gorfodol eraill. Oherwydd bod y cymhwysedd yn dod i ben ar ôl cyfnod penodol o amser, ac oherwydd trosiant staff; felly, nid ydym yn rhagweld y bydd yn ymarferol sicrhau canran sylweddol uwch na hyn yn y dyfodol.


Gwasanaeth Cyfieithu Cymraeg

Cafodd cyfanswm o 476,127 gair ei gyfieithu yn fewnol yn ystod 2023-24. Mae dadansoddiadau mewnol wedi dangos arbedion ariannol amlwg o gyflwyno'r gwasanaeth hwn, gyda budd ychwanegol o'r defnydd o feddalwedd Cof Cyfieithu. Fodd bynnag, nid yn ariannol gwelwyd y prif fuddion:


- Gwell profiad o ran safbwynt staff, gyda mwy o fewnbwn ar y cynnyrch gorffenedig a'r gallu i ymgynghori â'r cyfieithydd mewn amser real.
- Amseroedd gwell wrth ddychwelyd gwaith.
- Gwell cysondeb terminoleg.

Lefelau Sgiliau Cymraeg presennol yn BIAP

O'r 31^{ain} Mawrth 2024, nododd 2,522 aelod o staff yn BIAP bod eu gallu i siarad Cymraeg fel a ganlyn:



Sgiliau Cymraeg yn ôl Blwyddyn (Niferoedd)




	Anhysbys	Lefel 0	Lefel 1	Lefel 2	Lefel 3	Lefel 4	Lefel 5	CYFANSWM
2022-23	126.	1,140	654	161	79	69	115	2,535
2023-24	306	1,148	625	178	91	77	97	2,522

Mae'r nifer sylweddol yn yr adran 'anhysbys' yn 2019-20 yn debygol o adlewyrchu staff ar gontractau dros dro yn gysylltiedig â Covid-19.

Mae'r ffigurau hyn yn debyg yn fras i flynyddoedd blaenorol, gyda gostyngiad yn y niferoedd sy'n nodi Lefel 5 ac 1 ond cynnydd ar lefelau 2, 3 a 4.

Mae'r ffigurau hyn yn cynrychioli'r niferoedd uchaf erioed o staff a gofnodwyd ar lefelau 2, 3 a 4. Mae hyn yn adlewyrchu'n fras ar duedd barhaus o gynnydd graddol iawn flwyddyn ar ôl blwyddyn, er bod y ganran sy'n dangos unrhyw lefel o sgiliau Cymraeg (Lefelau 1-5) wedi gostwng ychydig.

Sgiliau Cymraeg fesul blwyddyn (Canran; Anhysbys wedi'i Ddileu)




Fel yn y blynyddoedd blaenorol, mae dangos sgiliau Cymraeg yn ôl oedran yn dangos lefelau sylweddol uwch o sgiliau Cymraeg ymhlith gweithwyr iau.


Mae dosbarthiad sgiliau Cymraeg ymhlith staff BIAP yn anwastad, gyda dau safle yn arbennig (ysbytai Ystradgynlais a Bro Dyfi (Machynlleth) yn dangos lefelau sylweddol uwch o sgiliau staff na safleoedd eraill. Mae hyn yn unol ag ystadegau poblogaeth leol ar y Gymraeg.

Mae'r data hwn wedi'i ddadansoddi yn ôl lleoliad (ar gyfer 9 prif safle ysbyty BIAP) ar y dudalen ganlynol, sy'n dangos yr ystadegau ar gyfer y 9 prif safle ysbyty. Mae dosbarthiad sgiliau Cymraeg ymhlith staff BIAP yn anwastad, gyda dau safle yn arbennig (ysbytai Ystradgynlais a Bro Dyfi (Machynlleth) yn dangos lefelau sylweddol uwch o sgiliau staff na safleoedd eraill. Mae hyn yn unol ag ystadegau poblogaeth leol ar y Gymraeg.


Aberhonddu (Brecon)




Bronllys




Y Drenewydd (Newtown)




Llandrindod




Y Trallwng (Welshpool)



Trefyclawdd (Knighton)





Mae'r amrywiad hwn yn adlewyrchu cyffredinrwydd y Gymraeg yn y boblogaeth leol, sy'n amrywio'n sylweddol ar draws Powys. Er bod cyfrifiad 2021 yn dangos bod 16.4% o'r boblogaeth gyffredinol yn gallu siarad Cymraeg - ychydig yn is na chyfartaledd Cymru o 17.8% - mae'r gyfran yn lleol yn amrywio mor isel â 7% yn Nhref-y-clawdd a Llanandras i mor uchel â 33% yn Ystradgynlais a 48% ym Machynlleth.

Rhan 2: Cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg

Yn ogystal â'r enghreifftiau uchod, mae'r canlynol yn nodi manylion y camau y mae BIAP wedi eu cymryd i sicrhau neu wella cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg yn ystod 2021-22.

Safonau Darparu Gwasanaethau

Safonau	Sefyllfa 2023-24	Camau Gweithredu Arfaethedig yn ystod 2024-25
Safonau 1-7 mewn perthynas â gohebiaeth a anfonwyd gan y bwrdd iechyd	<p>Yn unol â'r safonau a'n polisi BIAP mewnol, rydym wedi parhau i sicrhau bod gohebiaeth safonol yn cael ei hanfon allan yn ddwyieithog fel mater o drefn.</p> <p>O ran gohebiaeth ansafonol, mae'r gofyniad i ddelio â hyn yn lleol fesul achos yn cael ei hyrwyddo trwy sesiynau ymsefydlu, cyrsiau ymwybyddiaeth iaith a chynlluniau gweithredu mewnol adrannau.</p> <p>Mae rhan sylweddol o gyfathrebu'r bwrdd iechyd yn digwydd dros y cyfryngau cymdeithasol, sy'n cael ei reoli gan y tîm cyfathrebu. Mae gan y tîm siaradwr Cymraeg sy'n gallu sicrhau bod modd ymateb i unrhyw ohebiaeth a dderbynnir trwy'r cyfrwng hwnnw yn y Gymraeg heb yr angen am gyfieithu.</p>	<p>Parhau i sicrhau bod gohebiaeth yn cael ei chyfieithu yn ôl yr angen, ac i hyrwyddo cydymffurfiaeth â'r safonau hyn drwy sesiynau ymsefydlu, cyrsiau ymwybyddiaeth iaith a chynlluniau gweithredu mewnol adrannau.</p>

TV Cymroeg
Ydych chi weld ymchwil
Safonau 8-10
Pwyys L33 OLI

Gwasgus Ffôn
Safonau 8-10
Pwyys L33 OLI

Rhif Ffôn: 01493 312700
Cyfeiriad E-bost: info@pwyys.com

Enw / Meeting Title:
Cyfeiriad y Meeting Title:
Llinell Cyfeiriad 1
Llinell Cyfeiriad 2
Llinell Cyfeiriad 3
Llinell Cyfeiriad 4
Cod Post

Dyddiad: 12/09/2023
Rhif GIG: 123 456 7890
Rhif Cof: 12345678
Rhif Cyfeirnod y Ddogfen: 100-78626-1345

Arweinydd: **Mr A. Jones**
Arbenigwr: **Llawfeddygwrh Cyffwrdd**
Enw'r Claf: **Tom Jones**
Cyfeiriad y Claf:
Llinell Cyfeiriad 1
Llinell Cyfeiriad 2
Llinell Cyfeiriad 3
Llinell Cyfeiriad 4
Cod Post

Dyddiad yr Apwyntiad: 12/09/2023

Mae ein cofnod yn dangos iad ydych chi, a enwir i'w hysbysu ni apwyntiad.
Mae'r Ymgynghorydd wedi penderfynu rhyddhau'r claf o'r gwasanaeth a'i gyfeirio yn ôl at eich gofali chi.
Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghyd â'r llythyr hon, mae croeso i chi gyswlltu â ni yn y cyfeiriad / rhif ffôn ar frig y llythyr hon.

Yr eddlach yn gwbl.

GIG Bwrdd Iechyd
Public Health Wales
Pwyys Teaching
Health Board

Y Gwasgus Ffôn
01493 312700
Pwyys L33 OLI
Rhif Ffôn: 01493 312700
Cyfeiriad e-bost: info@pwyys.com

Y Gwasgus Ffôn
01493 312700
Pwyys L33 OLI
Rhif Ffôn: 01493 312700
Cyfeiriad e-bost: info@pwyys.com

TŷRI AC ENW
Cyfeiriad y Claf:
Llinell Cyfeiriad 1
Llinell Cyfeiriad 2
Llinell Cyfeiriad 3
Llinell Cyfeiriad 4
Cod Post

Dyddiad: 12/09/2023
Rhif GIG: 123 456 7890
Rhif Cof: 12345678
Rhif Cyfeirnod y Ddogfen: 100-78626-1345

Annwyl TŷRI AC ENW,
Mae apwyntiad drws y ffôn wedi'i drefnu i chi, gweler y manylion isod:

Clinigwr: **Mr T. Jones**
Arbenigwr: **Llawfeddygwrh Cyffwrdd**
Dyddiad yr Apwyntiad: 12/09/2023
Amser yr Apwyntiad: 13:00

Sylwch, gall locum neu gofrestrwyd o'i ôm o ymgynghorwyr gyswlltu â chi ar adrodd.
Dall yr apwyntiad hon beth hyd at un awr o hyd felly rdydd yn argymhell eich bod yn cymryd yr alwad mewn ardal breifat.
Os nad ydych chi ar gael ar gyfer yr awr hon, neu os hoffech gael rhabor o wybodaeth, cyswlltu â ni ar y rhif ffôn ar frig y llythyr hon. Mae'r ganolfan Apwyntiadau ar agor 08:00an 18:00an.
Fai araf, efallai bydd yn fwy cyfleus i chi ysgogennu atom yn y cyfeiriad ar frig y llythyr hon.
Os nad ydych chi'n holi gwibod i ni nad ydych chi gallu bod yn bresennol, efallai y caiff eich enw ei dynnu oddi ar y rhestr araf.
Y Ganolfan Apwyntiadau

GIG Bwrdd Iechyd
Public Health Wales
Pwyys Teaching
Health Board

Y Gwasgus Ffôn
01493 312700
Pwyys L33 OLI
Rhif Ffôn: 01493 312700
Cyfeiriad e-bost: info@pwyys.com

TŷRI AC ENW
Cyfeiriad y Claf:
Llinell Cyfeiriad 1
Llinell Cyfeiriad 2
Llinell Cyfeiriad 3
Llinell Cyfeiriad 4
Cod Post

Dyddiad: 12/09/2023
Rhif GIG: 123 456 7890
Rhif Cof: 12345678
Rhif Cyfeirnod y Ddogfen: 100-78626-1345

Annwyl TŷRI AC ENW,
Mae apwyntiad drws y ffôn wedi'i drefnu i chi, gweler y manylion isod:

Clinigwr: **Mr T. Jones**
Arbenigwr: **Llawfeddygwrh Cyffwrdd**
Dyddiad yr Apwyntiad: 12/09/2023
Amser yr Apwyntiad: 13:00

Sylwch, gall locum neu gofrestrwyd o'i ôm o ymgynghorwyr gyswlltu â chi ar adrodd.
Dall yr apwyntiad hon beth hyd at un awr o hyd felly rdydd yn argymhell eich bod yn cymryd yr alwad mewn ardal breifat.
Os nad ydych chi ar gael ar gyfer yr awr hon, neu os hoffech gael rhabor o wybodaeth, cyswlltu â ni ar y rhif ffôn ar frig y llythyr hon. Mae'r ganolfan Apwyntiadau ar agor 08:00an 18:00an.
Fai araf, efallai bydd yn fwy cyfleus i chi ysgogennu atom yn y cyfeiriad ar frig y llythyr hon.
Os nad ydych chi'n holi gwibod i ni nad ydych chi gallu bod yn bresennol, efallai y caiff eich enw ei dynnu oddi ar y rhestr araf.
Y Ganolfan Apwyntiadau

Rhai llythyrau safonol newydd a ddrafftwyd yn Gymraeg yn ystod 2023-24.

Safonau 8 – 20 yn ymwneud â galwadau ffôn a wnaed ac a dderbyniwyd gan y bwrdd iechyd

Yn ystod 2023-24 derbyniodd BIAP hysbysiad o ymchwiliad i fethiant i gydymffurfio â safonau 8, 9 a 10. Cafodd yr ymchwiliad ei gynnal a chanfod diffyg cydymffurfedd; a'r dasg i BIAP oedd datblygu a chynnal cynllun gweithredu i sicrhau cydymffurfedd yn y dyfodol.

Yn ystod 2023-24 dechreuodd y broses o gyflawni'r cynllun gweithredu, gyda'r camau canlynol yn cael eu cymryd:

- Cafodd y rhan fwyaf o staff trin galwadau ar draws y sefydliad hyfforddiant pwrpasol ar ofynion Safonau'r Gymraeg o ran teleffoni; bydd y gweddill yn derbyn yr hyfforddiant hwn yn ystod 2024-25.
- Gwiriwyd holl ganllawiau'r bwrdd iechyd ynghylch ymateb i alwadau ffôn am gywirdeb a chydymffurfedd â'r Safonau.

Mae disgwyl i'r system teleffoni newydd ddod ar-lein yn ystod 2024-25; bydd angen cynllunio llif galwadau i fodloni gofynion y safonau. Mae'r iteriad presennol o'r adnodd asesu Swyddi Gwag Cymraeg yn dangos y dylid hysbysebu pob rôl trin galwadau fel rhai Cymraeg hanfodol i wella lefelau sgiliau staff y sefydliad yn hyn o beth.

	<ul style="list-style-type: none"> Dechreuodd y broses o gaffael system teleffoni y bwrdd iechyd sydd degawdau oed. Er nad cydymffurfio â'r safonau oedd y prif gymhellant dros wneud y gwaith hwn, mae ganddo'r fantais ychwanegol o alluogi cyfeirio galwadau a fydd yn gwella gallu'r bwrdd iechyd i gydymffurfio â'r safonau. 	
Safonau 20-22CH yn ymwneud â chyfarfodydd nad ydynt ar agor i'r cyhoedd	<p>Mae'r gofyniad hwn yn cael ei hyrwyddo'n barhaus ac mae timau unigol wedi gweithredu prosesau yn unol â'u gofynion unigol.</p> <p>Mae'r ddogfen Adnoddau ac Arweiniad i Reolwyr yn cynnwys gwybodaeth am gynnal cyfarfodydd gydag aelodau'r cyhoedd. Lle nad yw'r staff sy'n siarad Cymraeg ar gael i fynychu cyfarfodydd, mae gan staff y gallu i gyrchu gwasanaethau cyfieithu ar y pryd, ac mae manylion y gwasanaethau cyfieithu ar y pryd sydd wedi'u cymeradwyo ar gael i staff ar y fewnwyd ac wedi'i hyrwyddo i staff.</p> <p>Mae'r sesiwn hyfforddi Cymraeg mewn Gofal Iechyd i Reolwyr newydd yn ymdrin â gofynion y safonau hyn ac yn sicrhau bod rheolwyr yn ymwybodol o'r angen i gynnig cyfle i bobl sy'n cael eu gwahodd i gyfarfodydd i ddefnyddio'r Gymraeg.</p>	Parhau i fonitro lefelau cydymffurfio ac adborth.
Safonau 23-25 yn ymwneud â chleifion mewnol a chynadleddau achos	<p>Gellir cofnodi dewis iaith cleifion mewnol drwy sawl sianel ar draws BIAP. Mae gan ein systemau electronig WPAS a WCCIS y gallu i gofnodi dewis iaith cleifion. Mae llawer o'n ffurflenni atgyfeirio defnyddwyr gwasanaeth hefyd yn gofyn i gleifion am eu dewis iaith, a chynadleddau achos yn cael eu cynnal fel mater o drefn gyda chymorth cyfieithu ar y pryd.</p> <p>Nododd y Strategaeth newydd ar gyfer Cymraeg mewn Gofal Iechyd nad oedd hyn yn debygol o fod yn broblem sylweddol o ran atal cleifion rhag defnyddio'r Gymraeg.</p>	Sicrhau bod unrhyw systemau newydd yn cael eu datblygu yn unol â'r gofynion hyn, gan gynnwys unrhyw systemau cenedlaethol y mae BIAP yn cyfrannu atynt.
Safonau 26-32 yn ymwneud â chyfarfodydd a	Mae'r gofyniad i ofyn i'r cyhoedd a hoffent ddefnyddio'r Gymraeg yn ein cyfarfodydd wedi'i amlinellu mewn dogfennau canllawiau ar gynnal cyfarfodydd a digwyddiadau.	Parhau i fonitro lefelau cydymffurfio ac adborth.

<p>digwyddiadau sydd ar agor i'r cyhoedd</p>	<p>Mae'r nifer sy'n manteisio ar y cynnig hwn yn brin, e.e. Gwahoddwyd cyfranogwyr CCB y bwrdd i ddefnyddio'r Gymraeg mewn cwestiynau, ac roedd yr holl wybodaeth a ddarparwyd yn Gymraeg; fodd bynnag, ni dderbyniwyd unrhyw gwestiynau yn Gymraeg.</p> <p>Mae'r canllawiau gweithdrefnol 'Cymraeg – Cyfathrebu a Marchnata' sy'n cynnwys gwybodaeth ar sut i gydymffurfio â'r Safonau wrth drefnu cyfarfodydd sy'n agored i'r cyhoedd yn parhau i gael eu hyrwyddo i reolwyr a staff o fewn eu timau; mae'r sesiwn hyfforddi Cymraeg mewn Gofal Iechyd i Reolwyr yn ymdrin â gofynion y safonau hyn ac yn sicrhau bod rheolwyr yn ymwybodol o'r angen i gynnig cyfle i bobl sy'n cael eu gwahodd i gyfarfodydd i ddefnyddio'r Gymraeg.</p>	
<p>Safonau 33-38 yn ymwneud â chyhoedduswydd a hysbysebu, arddangos deunydd yn gyhoeddus, cynhyrchu a chyhoeddi dogfennau a ffurflenni.</p> <p>(Safonau 47-49 yn ymwneud ag arwyddion, hefyd Safonau 111 yn ymwneud ag arwyddion)</p>	<p>Cynhaliwyd ymweliadau rheolaidd â'r 9 prif safle ysbyty, gan asesu cydymffurfedd ag ystod o safonau gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud ag arwyddion, arddangosfeydd gwybodaeth a dogfennau neu daflenni.</p> <p>Mae arwyddion sefydlog wedi bod yn ddwyieithog fel mater o drefn, wrth gwrs, ymhell cyn cyflwyno Safonau'r Gymraeg, ac ni chafwyd hyd i unrhyw enghreifftiau o ddiffyg cydymffurfio o ran arwyddion sefydlog. Derbyniwyd un gŵyn mewn perthynas ag arwyddion uniaith Saesneg ym Mro Dyfi (Machynlleth); fodd bynnag, daeth i'r amlwg bod hyn mewn perthynas â ffotograff o'r safle yn ystod gwaith adnewyddu a gyhoeddwyd ar y cyfryngau cymdeithasol lle nad oedd rhan Gymraeg yr arwydd sefydlog wedi'i gosod eto; doedd y safle byth ar agor i'r cyhoedd heb yr arwydd Cymraeg yn ei le.</p>	<p>Parhau i ymweld â safleoedd i asesu cydymffurfiaeth ac uwchgyfeirio materion.</p>



Yn ystod y blynyddoedd cynnar, mae eich plentyn yn datblygu fel unigolyn, yn dysgu iaith, chwarae a sgiliau symud, deall ei feddyliau a'i weithredoedd a datblygu perthynas â chi a'r teulu ehangach.

Gall cefnogi eich plentyn yn ystod y blynyddoedd cynnar hyn ei helpu tyfu a datblygu, gan leihau'r angen am ymyriadau arbenigol yn ddiweddarach a rhoi'r dechrau gorau mewn bywyd iddynt.

Mae'r cynllun Braenaru yn brosiect gan Lywodraeth Cymru sy'n helpu'r Bwrdd Iechyd, y Cyngor ac asiantaethau eraill i gydweithio'n well. **Nod y dull Braenaru yw cefnogi plant yn y blynyddoedd sylfaen o'r cyfnod Cynenedigol hyd at 7 oed.**

Mae'r cynllun Braenaru yn edrych ar anghenion plant a theuluoedd yn y Blynyddoedd Sylfaen, gan edrych ar wasanaethau sydd ar gael i'r plant a chydweithio i brofi a darparu rhaglen gymorth ar gyfer y dechrau gorau mewn bywyd.

Mae'r cynllun Braenaru wedi bod yn gweithio ledled Powys i ddeall anghenion plant a theuluoedd a gwasanaethau. Maent wedi bod yn gofyn cwestiynau fel "Pa wasanaethau sydd ar gael ac ydyn nhw'n addas, yn hygyrch ac yn y lle iawn?"

Mae'r prosiect wedi bod yn casglu barn teuluoedd a'r gweithwyr proffesiynol sy'n eu cefnogi i ddeall beth sydd angen ei wneud.

Bydd y prosiect peilot yn cael ei gyflwyno yng nghymunedau Tref-y-clawdd a Llanfyllin o fis Ebrill 2023 tan fis Mawrth 2024.

Bydd y prosiect yn cynnig mwy o weithgareddau a grwpiau cymorth i fabanod a phlant 0-7 oed.

Bydd Nyrs Feithrin Gymunedol ar gyfer y prosiect

Braenaru yn cynnal grwpiau ar gyfer plant 0-4 oed gan ddarparu cymorth ychwanegol fel grwpiau chwarae a chymorth iaith.



Cyhoeddir llawer o ddogfennau, arwyddion a gwybodaeth gyhoeddus yn Gymraeg a/neu'n ddwyieithog o fewn y bwrdd iechyd. Mae'r delweddau yn yr adran hon yn dangos ffracsiwn bach o'r gwahanol bosteri a thafleuni gwybodaeth a gyhoeddwyd yn ystod 2023-24.

YDYCH CHI'N POENI AM OLWG LLYGAID RHYWUN?



Gall eich optegydd lleol trin ystod o broblemau'r llygaid a helpu canfod cyflyrau'r llygaid fel y gellid eu trin yn gyflymach. Helpwch eich teulu a ffrindiau ceisio'r cymorth cywir.

Dewch o hyd i'ch optometrydd lleol yn biap.gig.cymru/gofallygaid



Visitors









All Visitors – please speak to a member of staff for information prior to entering the room

Ymwelwyr

Pob Ymwelydd – siaradwch ag aelod o'r staff am wybodaeth cyn mynd i mewn i'r ystafell

All Staff – Contact Precautions Required (in addition to standard precautions)

Pob Aelod o Staff – Rhagofalon Cyswilt Anghenrheidiol (yn ychwanegol at rhagofalon safonol)

Before entering the room	Cyn mynd i mewn i'r ystafell
 <p>Perfformio Hygiein y Dwylo</p>	 <p>Putio ar Gwmn neu Ffeciog ymlaen</p>
 <p>Cael gwaredd o'r mwyng</p>	 <p>Glanhau eich dwylo</p>
Before leaving the room	Cyn gadael yr ystafell
 <p>Perfformio Hygiein y Dwylo</p>	 <p>Cael gwaredd o'r gwmn neu ffeciog</p>
 <p>Diholagi Offer</p>	 <p>Perfformio Hygiein y Dwylo</p>

Mae arwyddion dros dro ac arddangosfeydd gwybodaeth yn parhau i fod braidd yn anghyson fodd bynnag, ac mae amlygrwydd wedi'i roi i'r safonau hyn yn hyfforddiant Cymraeg mewn Gofal Iechyd i Reolwyr.

Ydych chi'n 65 oed neu'n hŷn?
Are you 65 or over?

Ydych chi wedi cwmpo dros y flwyddyn ddiwethaf neu'n poeni am gwmpo?
Have you fallen over in the last year or are you worried you might fall?



A wyddoch chi mae unrhyw un sy'n ateb 'Ydw' i un neu ddau o'r uchod yn cael ei annog i gael asesiad manwl i ddarganfod beth all eich timau iechyd a gofal cymdeithasol ei wneud i'ch atal rhag cwmpo.
Did you know, anyone who answers 'Yes' to the above or both is encouraged to have a detailed assessment to find out what your health and social care teams can do to prevent you from falling.

Gofynnwch i'ch gweithiwr gofal iechyd proffesiynol eich cyfeirio chi, neu ewch i biap.gig.cymru a chwiliwch am 'Gwasanaeth Cwynplidau' i hunanatgyfeirio asesiad cwmpioadau.
Ask your Healthcare professional to refer you, or visit pfbh.nhs.wales and search 'Falls Services' to self-refer for a falls assessment.



GIG CYMRU NHS WALES Bwrdd Iechyd Addysgu Powys Powys Teaching Health Board

13^{EG} MAWRTH 2024 10YB- 2YH, MAES PARCIO AEL Y BRYN

YDYCH CHI ERIOED... WEDI?? **DIGWYDDIAD PROFI DROS DRO**

Cael twll yn eich corff – o unrhyw fath
Cael tatŵ
Cael unrhyw driniaethau harddu: BOTOX, lliwio'r croen
Cael pigiadau mewn gwlad dramor
Cael triniaeth ar eich dannedd mewn gwlad dramor
Rhannu brwsh dannedd
Rhannu raser
Cael eich gwallt wedi torri mewn siop dros dro
Cael eich siafio â raser hir
Cael trallwysiad gwaed cyn 1991 yn y DU
Cael trallwysiad gwaed mewn gwlad dramor
Ffroi rhyw sylwedd – erioed!
Cael pigiad: lliwio'r croen, steroidau neu gyffuriau o unrhyw fath – erioed!!
Smocio pibell neu bong
Rhannu dŵr, llwyau, ffilteri
Cael rhyw heb ddiogelwch

#CARU'CH AFU

IE I UNRHYW BETH, HYD YN OED OS MAI DIM OND UNWAITH - yn golygu efallai eich bod wedi dod i gysylltiad â feirws yr afu sy'n achosi hepatitis a niwed difrifol i'r afu yn ddiweddarach mewn bywyd os na chewch eich trin.
NEWYDDION DA - MAE MEDDYGINIAETHAU EFFEITHIOL AR GAEL A ALL WELLA'R CYFLWR HWN


DEWCH I WELD TŪM CYFELLGAR Y GIG AM BRAWF SYML
TE A CHOFFI HEFYD AR GAEL A WIF I AM DDIM
CADWCH LYGAD AM Y BWS WALLICH PORFFOR, SYDD WEDI'I BARCIO YN AEL Y BRYN,
YSTRADGYNLAIS,
AR 13^{EG} MAWRTH 10YB-2YH

GIG CYMRU NHS WALES Bwrdd Iechyd Addysgu Powys Powys Teaching Health Board

GIG CYMRU NHS WALES Bwrdd Iechyd Addysgu Powys Powys Teaching Health Board


Gwneud i bob cyswllt gyfrif
Making every contact count

Gwneud i Bob Cyswllt Gyfrif
Making Every Contact Count



Sut i gael sgysiau iach
A guide to having healthy conversations

Gwneud i Bob Cyswllt Gyfrif
Making Every Contact Count
Lleoliad Powys
ACROSS Powys

	<p>Dylid nodi bod cyfran sylweddol o'r posterï gwybodaeth sy'n cael eu harddangos mewn safleoedd BIAP yn dod o ffynonellau nad oes ganddynt safonau'r Gymraeg ac sy'n darparu gwybodaeth yn Saesneg yn unig; er enghraifft, elusennau yn y DU fel The Alzheimer's Society, neu grwpiau gwirfoddol neu elusennol lleol bach. Yn unol â Chod Ymarfer Safonau'r Gymraeg (Rhif.7) a gyhoeddwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg, nid yw arddangos y wybodaeth hon yn mynd yn groes i'r safonau, gan nad oedd BIAP (neu sefydliad arall sydd wedi derbyn Hysbysiad Cydymffurfiaeth Safonau'r Gymraeg) yn cynhyrchu'r wybodaeth yn y lle cyntaf.</p>  <h3>Notices and Posters</h3> <ul style="list-style-type: none"> • Must be bilingual or in Welsh / English. • This is an important part of ensuring we provide a welcoming bilingual environment. • Reassures Welsh speakers their needs will be met. • Don't assume this is someone else's job! • Remove posters if they are not compliant or out of date. • Translation are available and will be turned around immediately; common signs are available here. 	
<p>Safonau 39-46 sy'n ymwneud â gwefan, apiau a chyfryngau cymdeithasol y bwrdd iechyd</p>	<p>Yn ystod 2023-24 derbyniodd BIAP hysbysiad o ymchwiliad gan Gomisiynydd y Gymraeg i gydymffurfedd â safonau'n ymwneud â'r wefan. Cafwyd hyd i nifer cyfyngedig o dudalennau nad oedd ar gael yn ddwyieithog.</p>	<p>Tîm Cyfathrebu i barhau i weithredu fel ceidwaid ar gyfer y wefan a'r cyfryngau cymdeithasol, gan sicrhau arfer gorau.</p>

Statws gwasanaeth gan gynnwys Gweithredu Diwydiannol

Listen

Croeso i wefan Bwrdd Iechyd Addysgu Powys



Cyfleoedd gwych i Hyfforddi, Gweithio, Byw ym Mhowys
Fel rhan o'r Cynllun Gweithredu mewn ymateb i'r ymchwiliad hwn, mae proses newydd wedi'i gweithredu sydd wedi cryfhau'r broses ac a fydd yn sicrhau na fydd unrhyw gynnwys yn cael ei uwchlwytho yn Saesneg yn unig yn y dyfodol. Fel rhan o ymchwiliadau BIAP ei hun i'r sefyllfa canfuwyd y gallai'r rhan fwyaf o dudalennau nad ydynt yn cydymffurfio gael eu hynysu i rai timau penodol, gan awgrymu nad oes problem systemig ar draws y bwrdd iechyd cyfan.

Yn unol â'r broses newydd, bydd timau sy'n methu â llwytho cynnwys Cymraeg yn gyson yn colli'r gallu i uwchlwytho i'r wefan heb gymeradwyaeth ymlaen llaw.

Safonau 47-49 yn ymwneud ag arwyddion	<i>Gweler safonau 33-38 uchod.</i>	<i>Gweler safonau 33-38 uchod.</i>
Safonau 50-53 yn ymwneud â derbyn ymwelwyr	Mae arwydd wedi ei roi i bob derbynfa yn y bwrdd iechyd (lle nad oedd arwydd yno eisoes), yn gwahodd ymwelwyr i ddefnyddio'r Gymraeg (Safon 52); bathodynau/cortynnau hefyd yn cael eu dosbarthu yn eang i staff sy'n siarad Cymraeg (Safon 53). Mae'r holl safonau hyn yn cael eu cynnwys yn yr hyfforddiant Cymraeg i Reolwyr newydd.	Unwaith y bydd y system teleffoni newydd yn cael ei gosod a'i gweithredu, bydd modd cynnig gwasanaeth derbynfa dros y ffôn (yn unol â chod ymarfer Comisiynydd y Gymraeg) ym mhob dderbynfa.
Safonau 54-59 yn ymwneud â grantiau, tendrau a chaffael	Mae BIAP yn parhau i gydymffurfio â'r safonau hyn yn unol â chaffael ac ymarfer safonol GIG Cymru.	Parhau i sicrhau cydymffurfedd
Safonau 60-62 yn ymwneud â delwedd gorfforaethol y sefydliad	Mae hunaniaeth gorfforaethol BIAP yn gwbl ddwyieithog, gyda'r Gymraeg yn ymddangos uwchben y Saesneg yn ein logo.	Parhau i sicrhau cydymffurfedd
Safon 63 yn ymwneud â chyrсияu addysg a gynigir gan y bwrdd iechyd	Mae rheolwyr yn cael gwybod am y safon hon fel rhan o raglen hyfforddi Cymraeg mewn Gofal Iechyd i Reolwyr.	Parhau i sicrhau cydymffurfedd
Safon 64 yn ymwneud â systemau annerch y cyhoedd	Fel y mae ar y 31 ^{ain} Mawrth 2024 nid oes systemau annerch y cyhoedd ar waith o fewn BIAP.	<i>Amherthnasol</i>
Safonau 65-68 yn ymwneud â gofal sylfaenol	Yn unol â Safon 65, mae rhan benodol o'r wefan yn bodoli i roi gwybodaeth i'r cyhoedd am wasanaethau gofal sylfaenol sy'n gallu cynnig rhai neu'r holl wasanaethau yn Gymraeg.	Sicrhau bod y rhan hon o'r wefan yn parhau i fod yn gyfredol.



Gwasanaethau Cymraeg o fewn Gofal Sylfaenol



Manylion am staff sy'n siarad Cymraeg sy'n gweithio o fewn Meddygfeydd, Deintyddfeydd, Fferyllfeydd ac Optegwyr o fewn Powys ar gael trwy gysylltu â'r Meddygfeydd, Deintyddfeydd, Fferyllfeydd ac Optegwyr perthnasol.

Gellir gweld gwybodaeth am Feddygfeydd, Deintyddfeydd, Fferyllfeydd ac Optegwyr o fewn Powys ac ar draws Cymru ar ein gwefan:

- Meddygfeydd Teulu - Bwrdd Iechyd Addysgu Powys ([gig.cymru](#))
- Gwasanaethau Deintyddol - Bwrdd Iechyd Addysgu Powys ([gig.cymru](#))
- Fferyllfeydd - Bwrdd Iechyd Addysgu Powys ([gig.cymru](#))
- Optegwyr - Bwrdd Iechyd Addysgu Powys ([gig.cymru](#))


Mae gwasanaeth cyfieithu mewnol BIAP y parhau i gael ei gynnig i ddarparwyr gofal sylfaenol yn ôl Safon 66 ynghyd â chyfle i archebu bathodynau / cortynnau gwddf gyda logo 'Iaith Gwaith' yn rhad ac am ddim.

Safonau Llunio Polisi

<p>Safonau 69 – 78A yn ymwneud â phenderfyniadau llunio polisi</p>	<p>Rydym yn parhau i asesu penderfyniadau polisi ar gyfer eu heffaith ar y Gymraeg fel rhan o broses Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb (o hyn allan yn AEC) ehangach y Bwrdd Iechyd.</p> <p>Yn ystod 2023-24, cyflwynwyd 1 sesiwn hyfforddi ychwanegol ar gynnal AEC. Mae'r sesiwn hyfforddi a'r templed corfforaethol yn ymdrin â'r gofynion dan Safonau'r Gymraeg. Oherwydd bod y swyddogaethau Cydraddoldeb a'r Gymraeg o fewn BIAP yn dod dan yr un staff, atgyfnerthir y gofyniad i asesu polisiâu a datblygiadau ar gyfer eu heffaith ar y Gymraeg fel rhan o'r broses ehangach hon. Caiff holl sesiynau hyfforddi AEC eu darparu gan unigolyn/unigolion gyda phrofiad o Gydymffurfedd â Safonau'r Gymraeg.</p> <div data-bbox="616 829 1400 877"> </div> <h3>What do I need to consider? (5/6)</h3> <p>Welsh Language The Policy or Project must should not have negative effects and ideally will have positive effects on</p> <ol style="list-style-type: none"> 1) Opportunities to use the Welsh Language 2) Treating the Welsh Language less favourably than English <p><i>Questions to ask:</i> What provision have you made for Welsh? Will Welsh versions be distributed with English materials? Will it be easier for people to receive services in Welsh? If the service is new, how will you offer it in Welsh?</p> <div data-bbox="519 1295 1444 1337"> <p>11 Equality Impact Assessment Training</p> </div>	<p>Disgwylir i'r Polisi Asesu Effaith ar Gydraddoldeb gael ei adolygu a'i adnewyddu yn 2024-25, yn ogystal â bod yn rhan o adolygiad ehangach o brosesau sy'n ymwneud â dogfennau rheoli ysgrifenedig, ac ymchwil y comisiynydd i gydymffurfio â'r safonau hyn. Gall prosesau mewnol BIAP newid o ganlyniad.</p>
--	--	--

--	--	--

Safonau Gweithredu

<p>Safon 79 yn ymwneud â pholisi ar ddefnydd mewnol y Gymraeg</p>	<p>Yn ystod 2023-24 cyhoeddodd Bwrdd Iechyd Addysgu Powys ei bolisi Cymraeg yn y Gweithle i fodloni gofynion y safon hon. Caiff ei hyrwyddo yn y sesiwn ymsefydlu a hyfforddiant Cymraeg mewn Gofal Iechyd i Reolwyr.</p> <div style="text-align: center;">  <p>POLISI'R GYMRAEG YN Y GWEITHLE</p> <table border="1" data-bbox="586 738 987 1058"> <tr> <td>Rhif Cyfeirnod y Ddogfen:</td> <td colspan="2">BIAP /HR109 Polisi'r Gymraeg yn y Gweithle</td> </tr> <tr> <td>Fersiwn:</td> <td colspan="2">1</td> </tr> <tr> <td>Dyddiad cyhoeddi:</td> <td colspan="2">Gorffennaf 2023</td> </tr> <tr> <td>Dyddiad Adolygu:</td> <td colspan="2">Gorffennaf 2026</td> </tr> <tr> <td>Awdur:</td> <td colspan="2">Rheolwr Gwella Gwasanaethau Cydraddoldeb a'r Gymraeg</td> </tr> <tr> <td>Perchennog y ddogfen:</td> <td colspan="2">Rheolwr Gwella Gwasanaethau Cydraddoldeb a'r Gymraeg</td> </tr> <tr> <td>Gweithredwr Atebol:</td> <td colspan="2">Cyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol</td> </tr> <tr> <td>Cymeradwywyd gan:</td> <td colspan="2">Pwyllgor Gweithredol</td> </tr> <tr> <td>Dyddiad Cymeradwyo:</td> <td colspan="2">12 Gorffennaf 2023</td> </tr> <tr> <td>Math o Ddogfen:</td> <td>Polisi</td> <td>Anghlinigol</td> </tr> <tr> <td>Cwmpas:</td> <td colspan="2">BIAP cyfan</td> </tr> </table> <p style="font-size: small; margin-top: 20px;">Mae'r fersiwn ddiweddaraf wedi'i chymeradwyo o'r ddogfen hon ar-lein. Os yw'r dyddiad adolygu wedi mynd heblio, cysylltwch â'r Awdur am gyngor.</p> <p style="font-size: x-small; margin-top: 20px;">Powys Teaching Health Board is the operational name of Powys Teaching Local Health Board Bwrdd Iechyd Addysgu Powys yw enw gweithredol Bwrdd Iechyd Lleol Addysgu Powys</p> </div>	Rhif Cyfeirnod y Ddogfen:	BIAP /HR109 Polisi'r Gymraeg yn y Gweithle		Fersiwn:	1		Dyddiad cyhoeddi:	Gorffennaf 2023		Dyddiad Adolygu:	Gorffennaf 2026		Awdur:	Rheolwr Gwella Gwasanaethau Cydraddoldeb a'r Gymraeg		Perchennog y ddogfen:	Rheolwr Gwella Gwasanaethau Cydraddoldeb a'r Gymraeg		Gweithredwr Atebol:	Cyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol		Cymeradwywyd gan:	Pwyllgor Gweithredol		Dyddiad Cymeradwyo:	12 Gorffennaf 2023		Math o Ddogfen:	Polisi	Anghlinigol	Cwmpas:	BIAP cyfan		<p>Parhau i hyrwyddo Polisi'r Cymraeg yn y Gweithle.</p>
Rhif Cyfeirnod y Ddogfen:	BIAP /HR109 Polisi'r Gymraeg yn y Gweithle																																		
Fersiwn:	1																																		
Dyddiad cyhoeddi:	Gorffennaf 2023																																		
Dyddiad Adolygu:	Gorffennaf 2026																																		
Awdur:	Rheolwr Gwella Gwasanaethau Cydraddoldeb a'r Gymraeg																																		
Perchennog y ddogfen:	Rheolwr Gwella Gwasanaethau Cydraddoldeb a'r Gymraeg																																		
Gweithredwr Atebol:	Cyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol																																		
Cymeradwywyd gan:	Pwyllgor Gweithredol																																		
Dyddiad Cymeradwyo:	12 Gorffennaf 2023																																		
Math o Ddogfen:	Polisi	Anghlinigol																																	
Cwmpas:	BIAP cyfan																																		
<p>Safonau 80 – 81 yn ymwneud â</p>	<p>Mae contractau (Safon 80) wedi'u safoni a'u darparu'n ddwyieithog yn awtomatig drwy'r system TRAC.</p>																																		

dogfennau cyflogaeth	Mae dogfennau cyflogaeth eraill wedi eu darparu yn Gymraeg ar fewnwyd y Bwrdd Iechyd; hyrwyddir ymwybyddiaeth o'r rhain drwy sesiwn hyfforddi Cymraeg mewn Gofal Iechyd i Reolwyr.	
Safon 82 - yn ymwneud â pholisïau gweithredol	<p>Mae proses wedi'i sefydlu i sicrhau bod polisiau sy'n berthnasol i'r safon hon ar gael yn Gymraeg, a lle gwneir newidiadau, y mae'r rhain hefyd yn cael eu nodi. Cyhoeddwyd rhan fwyaf y polisiau dan sylw Safon 82 yn ddwyieithog yn barod gan eu bod yn bolisiau Cymru Gyfan.</p> <p>Oherwydd cyfyngiadau capasiti o fewn y tîm cyfieithu Cymraeg a'r angen i flaenoriaethu gwybodaeth sy'n wynebu cleifion, mae'r polisiau hyn yn cael eu cyfieithu pan gânt eu hadolygu ar wahân; mae'r gwaith hwn yn parhau.</p>	Parhau i weithio i sicrhau bod yr holl bolisiau dan y safon hon ar gael yn Gymraeg.
Safonau 83-88 – yn ymwneud â disgyblu, anghydfod a phrosesau mewnol eraill.	Mae'r holl ofynion hyn yn parhau i gael eu bodloni drwy'r polisiau perthnasol presennol ar gyfer Cymru gyfan a BIAP; hyrwyddir ymwybyddiaeth o'r rhain drwy sesiwn hyfforddi Cymraeg mewn Gofal Iechyd i Reolwyr.	Parhau i sicrhau bod yr holl bolisiau yn adlewyrchu'r gofynion hyn.
Safon 89 yn ymwneud â rhyngwynebau meddalwedd cyfrifiadurol dwyieithog	Mae Cysgliad a rhyngwynebau Cymraeg ar gyfer Windows, Office ac ESR yn parhau i fod ar gael i staff. Mae manylion ar gyrchu'r rhain ar gael ar fewnwyd staff y bwrdd iechyd, a hyrwyddir ymwybyddiaeth o'r rhain drwy sesiwn hyfforddi Cymraeg mewn Gofal Iechyd i reolwyr.	Parhau i hyrwyddo'r rhain drwy sesiynau ymsefydlu a sesiynau hyfforddi/ymwybyddiaeth staff.

Safonau 90 – 95 yn ymwneud â'r fewnrwyd

Mae ein mewnwyd wedi'i chynllunio o'r dechrau i gydymffurfio'n llwyr â'r Safonau sy'n gysylltiedig â'r fewnrwyd (i'r graddau y mae'r bensaernïaeth yn caniatáu). Gellir cyrchu'r fersiynau Cymraeg o dudalennau mewnwyd (lle maen nhw'n bodoli) drwy glicio 'Cymraeg' ar y tab ieithoedd:

Y Gymraeg ym Mwrdd Iechyd Addysgu Powys

Croeso i dudalen y Gymraeg. Mae Bwrdd Iechyd Addysgu Powys yn gorff dwyieithog ac fe siaredir y Gymraeg ledled cymunedau Powys. Gobeithwn y bydd y tudalennau hyn o gymorth i chi wrth i chi ddefnyddio eich Cymraeg yn y gwaith.

Ar y tudalennau hyn mae gwibodaeth am:

- Sut gallwch helpu i ddarparu gwasanaethau Cymraeg i gleifion.
- Sut a ble gallwch ddyysgu mwy am y Gymraeg a chyfluoedd hyfforddiant.
- Beth yw gofynnion statudol y bwrdd iechyd a sut gallwch ni oll sicrhau ein bod yn cydymffurfio.
- Sut i drefnu cyfweithiad.
- Sut all tim y Gymraeg eich helpu chi.
- Pa gyfluoedd hyfforddi a rhydwethio sydd ar gael i godi hyder i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gwaith.

I gysylltu gyda'r tim am wybodaeth bellach am ddefnyddio'r Gymraeg ym MIAP, cysylltwch gyda ni ar: powys.equalityandwelsh@wales.nhs.uk

Mae'r dudalen hon hefyd ar gael yn Saesneg drwy newid yr iaith ar frig y dudalen.

Cyrsiau magu hyder

Gwybodaeth am gyrsiau i wella eich Cymraeg

Y Cynnig Rhagweithiol

Gwybodaeth am roi'r cynnig rhagweithiol

Cyfleithu (i ac o'r Gymraeg)

Manylion y gwasanaeth cyfleithu


Yn ogystal â'r tudalennau sy'n ymwneud â defnyddio'r Gymraeg yn y gwaith (gweler uchod), mae hafan y fewnrwyd ar gael yn Gymraeg fel y mae tudalennau sy'n ymwneud â Datblygu Sefydliadol ac Addysg Glinigol (Hyfforddiant) a phob safle arall fel y nodir gan y Safon 81.

Safonau 96 – 101 yn ymwneud â sgiliau a

Gweler yr adran uchod am gyfrifoldebau adrodd sgiliau staff. Mae BIAP wedi parhau i hyrwyddo a, lle bo'n briodol, cefnogi dysgu Cymraeg yn ariannol yn unol â'r safonau. Mae'r cyrsiau hyn wedi bod yn boblogaidd, gyda 19 unigolyn yn cwblhau'r cyrsiau

Parhau i fonitro'r fewnrwyd i sicrhau bod cydymffurfiaeth yn parhau wrth i'r fewnrwyd ddatblygu.

Parhau i hyrwyddo opsiynau hyfforddi presennol a newydd i staff ar draws BIAP. Mynd ar drywydd y gwahaniaeth rhwng nifer a

<p>hyfforddiant Cymraeg staff</p>	<p><i>Cymraeg Gwaith</i> ar-lein yn ystod 2023-24 a staff eraill yn dilyn cyrsiau <i>Dysgu Cymraeg</i> ar-lein ac yn y gymuned. Ar y 31^{ain} Mawrth 2024, roedd 9 unigolyn yn y bwrdd iechyd hefyd yn mynychu cynllun <i>Codi Hyder</i>.</p>  <p>Mae grŵp Yammer GIG Cymru Dysgu Cymraeg, grŵp BIAP yn unig yn wreiddiol ond ers agor i staff ar draws GIG Cymru, mae'n cynnig rhwydwaith cefnogol ar gyfer staff sy'n dysgu Cymraeg yn ogystal â chyfle i rannu awgrymiadau a gofyn cwestiynau.</p>	<p>fynegwyd diddordeb yn y cynllun <i>Codi Hyder</i> (49) a'r nifer sydd wedi ymgymryd â'r cwrs (9).</p>
<p>Safonau 102-103 yn ymwneud â hyfforddiant ymwybyddiaeth o'r Gymraeg</p>	<p>Cyflwynwyd y modiwl newydd ar-lein Mwy na Geiriau: Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg ym mis Rhagfyr 2022. Ym mis Mawrth 2024, roedd cyfanswm o 90% o holl staff BIAP wedi ymgymryd â'r modiwl hyfforddi gorfodol hwn.</p> <p>Mae hyfforddiant Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg wyneb yn wyneb yn parhau i gael ei gynnis o fewn y bwrdd iechyd a gofal sylfaenol, gyda dwy adran yn manteisio ar y cyfle hwn yn ystod 2023-24:</p>	<p>Parhau i fonitro ac annog cwblhau'r modiwl hyfforddi gorfodol.</p>

	<ul style="list-style-type: none"> • Gwasanaethau Cleifion • Tîm Gofal Sylfaenol 	
Safonau 104-105 yn ymwneud â nodi staff sy'n siarad Cymraeg	<p>Mae bathodynau a chortynnau gwddf i adnabod staff Cymraeg a dysgwyr Cymraeg ar gael i'r holl staff. Mae hyn yn galluogi cleifion i adnabod staff sy'n siarad Cymraeg yn rhwydd ac yn cynyddu eu hyder yng ngallu'r bwrdd iechyd i ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg.</p> <p>Mae templedi llofnodion e-bost dwyieithog ar gael ar dudalen fewnrwyd adnoddau Cymraeg a hefyd yn y ddogfen Canllawiau ac Adnoddau i Reolwyr.</p>	
Safonau 106 yn ymwneud â recriwtio	<p>Mae'n bolisi'r bwrdd iechyd i sicrhau bod yr holl swyddi gwag yn nodi gofyniad y Gymraeg, a'u bod yn cael eu hysbysebu yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg yn unol â Safonau 106 a 106A; fel mater o drefn, gwahoddir ymgeiswyr i wneud cais yn Gymraeg i bob swydd wag.</p> <p>Mae 107A a-c i gyd yn cael eu darparu yn Gymraeg fel mater o arfer safonol. Ar hyn o bryd nid yw'r bwrdd iechyd yn cyfieithu'r holl swydd ddisgrifiadau (107A ch) oherwydd cyfyngiadau ariannol a chapasiti.</p> <p>Yn ystod 2023-2024 hysbysebodd BIAP 973 o swyddi gwag:</p> <p>Cafodd 1 swydd eu hysbysebu gyda lefel sgiliau Cymraeg yn hanfodol.</p> <p>Cafodd 972 swydd eu hysbysebu gyda lefel sgiliau Cymraeg yn ddymunol.</p> <p>Cafodd 0 o swyddi eu hysbysebu lle nad oedd angen unrhyw sgiliau Cymraeg.</p> <p>Roedd y rôl a hysbysebwyd gyda sgiliau Cymraeg hanfodol yn rôl yn yr Academi Iechyd a Gofal Cymdeithasol.</p>	Cyflwyno'r broses asesu swyddi gwag gorfodol newydd a monitro nifer y swyddi gwag a hysbysebwyd yn y gwahanol categorïau.

	Bydd proses orfodol newydd sy'n cynnwys offeryn asesu ar-lein a fydd yn sicrhau atebolrwydd llawn ar gyfer Safon 106 ac am y penderfyniadau a wneir gan arwain at yr ystadegau a hysbysebair yn y rhan hon o Adroddiadau Blynyddol Safonau'r Gymraeg yn y dyfodol.	
Safonau 110-110A sy'n ymwneud â chynllun ar gyfer ymgynghoriadau clinigol dwyieithog	<p>Ein prif gyflawniad eleni oedd dylunio, datblygu, ymgynghori, cymeradwyo a chyhoeddi ein Strategaeth y Gymraeg mewn Gofal Iechyd 2024-2029. Mae'r ddogfen gynhwysfawr hon yn ymgorffori'r gofyniad i ddatblygu Cynllun Pum Mlynedd i gynyddu ein gallu i ddarparu Ymgynghoriadau Clinigol yn y Gymraeg yn unol â Safon y Gymraeg 110 yn ogystal â Strategaeth y Gweithlu sy'n ofynnol gan Mwy na Geiriau, a darparu cyfeiriad a thargedau cyffredinol ar gyfer datblygu ein gweithlu dwyieithog. Mae'r ddogfen ar gael ar wefan BIAP ac mae'n nodi sut rydym yn bwriadu datblygu ein gallu Cymraeg fel sefydliad dros y pum mlynedd nesaf.</p> <p>Mae'r Adolygiad o'r strategaeth flaenorol dan Safon 110A wedi'i gynnwys fel atodiad i'r Strategaeth Gymraeg mewn Gofal Iechyd</p>	Sicrhau bod Strategaeth y Gymraeg mewn Gofal Iechyd yn cael ei hymgorffori a'i hyrwyddo ar draws y bwrdd iechyd.
Safonau 111 – 113 yn ymwneud ag arwyddion	(Gweler safonau 33-38 uchod).	(Gweler safonau 33-38 uchod).
Safon 114 - yn ymwneud â negeseuon gweithle wedi'u recordio.	Nid yw'r safon hon yn berthnasol i BIAP gan nad oes systemau cyhoeddiadau wedi'u recordio ar ein safleoedd.	Amherthnasol

Cadw Cofnodion a Safonau Atodol

<p>Safon 115 - yn ymwneud â chwynion.</p>	<p>Yn ystod 2022-2023 ni dderbyniodd BIAP unrhyw gwynion ffurfiol neu anffurfiol mewn perthynas â gweithredu Safonau'r Gymraeg.</p> <p>Mae BIAP yn parhau i ddilyn yr amodau a nodir yn y polisi 'Gweithio i Wella' GIG Cymru, sy'n cynnwys gwybodaeth am ddelio â chwynion a wnaed yn Gymraeg ac ynglŷn â darpariaeth Gymraeg. Gallwch weld copïau o'r dogfennau hyn yma.</p> <p>Ddiwedd mis Mawrth 2023, agorodd Comisiynydd y Gymraeg Ymchwiliad i'r bwrdd iechyd yn ymwneud â diffyg cydymffurfio â Safonau 8, 9 a 10 ar rai rhifau switsfwrdd ysbytai; agorwyd ymchwiliad arall ym mis Rhagfyr 2023 ynghylch Safon 39 a 41. Mae manylion y rhain ar gael uchod.</p>	<p>Amherthnasol</p>
<p>Safonau 116-121 sy'n ymwneud â chadw cofnodion a materion atodol.</p>	<p>Ar gyfer Safon 116, gweler 'lefelau Sgiliau Cymraeg cyfredol yn BIAP' uchod.</p> <p>Ar gyfer Safon 117, gweler Safon 106.</p>	<p>Amherthnasol</p>

Fframwaith Mwy na Geiriau


Mae Fframwaith Mwy na Geiriau Llywodraeth Cymru ar wahân i Safonau'r Gymraeg; fodd bynnag, er lles symleiddio ac atal dyblygu gwaith adrodd, mae'r diweddariad canlynol yn adlewyrchu cynnydd BIAP dan Gynllun Gweithredu Mwy na Geiriau.

Camau Gweithredu Tymor Byr (erbyn 2023) a Chamau Gweithredu Tymor Canolig (erbyn 2025)

Sefydliad GIG	Bwrdd Iechyd Addysgu Powys
----------------------	-----------------------------------

Cwblhawyd erbyn:	Arweinydd Gwasanaeth Cymraeg a Chydraddoldeb	Dyddiad:
-------------------------	---	-----------------

Cyf	Disgrifiad o Gam Gweithredu Tymor Byr a Thymor Canolig	Prif Atebolrwydd	Adroddiad Cynnydd 2023/24 (cyfnod adrodd 1/4/23 – 31/3/24)	Blaenoriaethau 2024/25	Enghreifftiau o arfer gorau/ gwaith a wnaed mewn partneriaeth
Diwylliant ac Arweinyddiaeth					
1	Byddwn yn gosod amcanion perfformiad personol i sicrhau bod cynllun Mwy na geiriau yn cael ei roi ar waith fel bod y Cynnig Rhagweithiol yn cael ei ymwreiddio yn amcanion blynyddol arweinwyr y sector, ei raeadru drwy sefydliadau, a'i ystyried mewn arfarniadau unigol perthnasol ar bob lefel. Bydd hyn yn cynnwys adroddiad Cyfarwyddwyr	Yr holl gyrff iechyd a gofal cymdeithasol. Llywodraeth Cymru i arwain ar amcanion ar gyfer Cadeiryddion.	Nid yw BIAP yn gosod amcanion y Cadeirydd. Mae Cwrs Hyfforddi Cymraeg mewn Gofal Iechyd i Reolwyr BIAP yn awgrymu bod rheolwyr yn ystyried gosod y cynnig rhagweithiol fel amcan personol neu dîm fel y bo'n briodol.	Gwahoddir aelodau'r Bwrdd i gymryd rhan yn rhaglen <i>Agor y Drws</i> dan arweiniad AaGIC ar gyfer Arweinwyr Gofal Iechyd.	Mae'r cwrs hyfforddi Cymraeg mewn Gofal Iechyd i Reolwyr, sy'n rhan o Raglen orfodol Hyfforddi Rheolwyr BIAP a gynhelir gan bob unigolyn yn BIAP sydd â

	<p>Gwasanaethau Cymdeithasol (Fframwaith Adroddiad Blynyddol y Cyngorau) a Chadeiryddion byrddau'r GIG. (<i>Tymor byr</i>)</p>		<p>Model good behavior</p> <ul style="list-style-type: none"> • Use whatever Welsh skills you have • Begin / end meetings with Welsh greetings • Be proactive in allowing staff to use their Welsh • Promote internal processes in Welsh • Do you know who the Welsh speakers are on your team? • Consider setting personal and team objectives around Welsh and the Active Offer. <p>Do you have any good internal processes you'd like to share?</p> 		<p>dyletswydd rheoli llinell, yn sicrhau lefel ychwanegol o ddarpariaeth ar gyfer staff uwch yn ychwanegol at hyfforddiant Ymwybyddiaeth gorfodol.</p>
2.	<p>Dros amser, rydym yn disgwyl i'r holl staff iechyd a gofal cymdeithasol ddod i werthfawrogi'r gwahaniaeth cadarnhaol y gall dysgu a defnyddio'r Gymraeg ei wneud i'r profiad o ofal, sy'n ddull tymor hir o weithredu. Byddwn yn ategu cyrsiau ymwybyddiaeth ieithyddol gyda dull cyfathrebu sy'n seiliedig ar wyddor ymddygiad er mwyn sicrhau bod popeth rydym ni fel arweinwyr yn ei ddweud am y Gymraeg, ac fel sefydliadau a phartneriaethau, yn cyfrannu at y strategaeth hon. Bydd y dull hwn o weithredu yn adeiladu ar yr hyfforddiant ac ar y naratif cadarnhaol a amlinellir yn y cynllun. (<i>Tymor byr i ganolig</i>)</p>	Llywodraeth Cymru/ AaGIC/ GCC	<p>Gweler isod yn ymwneud â sesiwn Ymwybyddiaeth y Gymraeg. Mae'r holl staff hefyd yn derbyn gwybodaeth am ddefnyddio'r Gymraeg fel rhan o'u sesiwn ymsefydlu; gweler hefyd cwrs hyfforddi Cymraeg mewn Gofal Iechyd i Reolwyr.</p>	<p>Gweler isod yn ymwneud â sesiwn Ymwybyddiaeth y Gymraeg. Mae'r holl staff hefyd yn derbyn gwybodaeth am ddefnyddio'r Gymraeg fel rhan o'u sesiwn ymsefydlu; gweler hefyd cwrs hyfforddi Cymraeg mewn Gofal Iechyd i Reolwyr.</p>	<p>Mae'r cwrs hyfforddi Cymraeg mewn Gofal Iechyd i Reolwyr, sy'n rhan o Raglen orfodol Hyfforddi Rheolwyr BIAP a gynhelir gan bob unigolyn yn BIAP sydd â dyletswydd rheoli llinell, yn sicrhau lefel ychwanegol o ddarpariaeth ar gyfer staff uwch yn ychwanegol at hyfforddiant Ymwybyddiaeth gorfodol.</p>

3	Byddwn yn disgwyl i'r rheini sydd mewn rolau arwain gymryd rhan yn ein rhaglen Arwain mewn Gwlad Ddwyieithog. Mae'r rhaglen hon yn gweithio tuag at ymwreiddio ysbryd Cymraeg 2050 yn niwylliant sefydliadau a'u polisiau. Yn rhy aml o lawer, mae'r Gymraeg yn cael ei hystyried fel dim ond mater o gyfieithu neu ymarfer 'ticio'r bocs' wrth ddatblygu polisi. Mae'r rhaglen hon, sy'n seiliedig ar werthoedd, yn mynd y tu hwnt i'r gwaith hwnnw i ddeall effaith bosibl holl elfennau ein gwaith ar ein hiaith—ac i ddefnyddio'r hyn sydd gennym i ddefnyddio mwy ar yr iaith. <i>(Tymor canolig)</i>	Cadeiryddion a Phrif Weithredwyr cyrff iechyd a gofal cymdeithasol	Ni fu hyn yn bosibl oherwydd nad yw'r cwrs yn cael ei redeg eleni ac yn cael ei ddisodli gan <i>Agor y Drws</i> .	Gwahoddir aelodau'r Bwrdd i gymryd rhan yn rhaglen <i>Agor y Drws</i> dan arweiniad AaGIC ar gyfer Arweinwyr Gofal Iechyd.	
Thema 1: Cynllunio a pholisiau'r Gymraeg gan gynnwys data					
8	Bydd fframwaith cenedlaethol cytunedig ar gyfer casglu a chyfuno data ar sgiliau iaith yr holl staff sy'n gweithio ym maes iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru yn cael ei ddatblygu a'i weithredu. Dylai'r fframwaith fod yn orfodol lle bynnag y bo modd, a byddai angen iddo gyd-fynd â'r systemau a'r dulliau sydd ar waith ar hyn o bryd i gasglu a	AaGIC/GCC/ Iechyd a Gofal Digidol Cymru/cyrff iechyd a gofal cymdeithasol, gan gynnwys contractwyr gofal sylfaenol annibynnol.	Mae BIAP yn rhannu data blynyddol am sgiliau'r Gymraeg yn eu gweithlu fel rhan o'r Adrodd Blynyddol dan safonau'r Gymraeg.	Mae ymateb BIAP i'r amcan hwn yn adweithiol.	

	chyfuno data ar draws y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol, gan gynnwys gwasanaethau sy'n cael eu darparu yn Gymraeg. (<i>Tymor canolig</i>).				
9	Bydd adroddiad blynyddol yn cael ei baratoi gan gorff priodol i ddod â data am y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol at ei gilydd. Byddai'r adroddiad hwn yn gallu cael ei baratoi a'i gyhoeddi gan Ystadegau Cymru. Dylai'r adroddiad fod ar gael i'r cyhoedd gyda lefel bellach o fanylder ar gael fel sy'n briodol i'r cyrff hynny sy'n gyfrifol am y gweithlu mewn gwahanol gyd-destunau – ee, AaGIC, GCC, Byrddau Iechyd (<i>Tymor byr i ganolig</i>)	AaGIC / GCC /cyrff iechyd a gofal cymdeithasol	Mae BIAP yn rhannu data blynyddol am sgiliau'r Gymraeg yn eu gweithlu fel rhan o'r Adrodd Blynyddol dan safonau'r Gymraeg. Mae BIAP yn hapus i ddarparu unrhyw ddata y gofynnir amdano gan "gorff priodol."	Mae ymateb BIAP i'r amcan hwn yn adweithiol.	
10	Bydd cam gweithredu 30 yn y 'Strategaeth Gweithlu ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol' – datblygu canllawiau cynllunio'r gweithlu ar gyfer nodi a datblygu sgiliau iaith Gymraeg yn y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol – yn cael ei roi ar waith cyn gynted ag y bo modd. Dylai'r canllawiau hyn ystyried faint o staff â sgiliau Cymraeg sydd eu hangen, a natur y sgiliau hynny mewn gwahanol	AaGIC/ Gofal Cymdeithasol Cymru	Mae ein Strategaeth y Gymraeg mewn Gofal Iechyd 2024-2029 yn cynnwys camau newydd i orfodi'r asesiad gorfodol o'r holl swyddi gwag mewn perthynas â gallu presennol timau i ddarparu eu gwasanaethau yn Gymraeg. Bydd hyn yn sicrhau bod pob swydd wag yn cael ei hasesu'n briodol ar gyfer eu	Bydd hyn yn sicrhau bod pob swydd wag yn cael ei hasesu'n briodol ar gyfer ei gofynion Cymraeg a dylai arwain at gynnydd yn nifer y rolau sy'n cael eu hysbysebu fel Cymraeg hanfodol.	Mae'r offeryn asesu swyddi gwag a ddatblygwyd gan BIAP wedi ennyn llawer o ddi-ddordeb gan fyrddau iechyd eraill; gall offer tebyg sy'n seiliedig ar hyn gael eu cyflwyno

	<p>gyd-destunau iechyd a gofal cymdeithasol ac o fewn y meysydd angen â blaenoriaeth. Bydd y canllawiau'n cael eu defnyddio fel rhan o'r gwaith blynyddol i gynllunio'r gweithlu a wneir gan Fyrddau Iechyd, Awdurdodau Lleol, AaGIC, Gofal Cymdeithasol Cymru a chyflogwyr eraill fel y bo'n briodol. Hefyd, bydd y canllawiau'n llywio gwaith yr arolygiaeth a'r rheoleiddwyr perthnasol fel y bo'n briodol.</p> <p><i>(Tymor byr)</i></p>		<p>gofynion Cymraeg a dylai arwain at gynnydd yn nifer y rolau sy'n cael eu hysbysebu fel Cymraeg hanfodol.</p>		<p>mewn byrddau iechyd eraill yng Nghymru yn y dyfodol agos.</p>
--	--	--	---	--	--

Thema 2: Cyflwyno ac ymgorffori Strategaeth y Gymraeg mewn Gofal Iechyd a'r offeryn Asesu Swyddi Gwag, a sicrhau eu bod yn cael eu defnyddio'n gywir ac yn effeithiol.

13	<p>Bydd sefydliadau iechyd a gofal cymdeithasol yn dod o hyd i fylchau yn sgiliau'r gweithlu mewn meysydd allweddol ac yn datblygu cynlluniau i fynd i'r afael â nhw. Bydd hyn yn cael ei ymwreiddio mewn cynlluniau sgiliau a gweithlu sy'n cael eu datblygu a'u cyflwyno mewn sefydliadau unigol, ac yn galw am weithio'n agos gydag AaGIC a GCC.</p> <p><i>(Tymor canolig)</i></p>	<p>Cyrff iechyd a gofal cymdeithasol, AaGIC a GCC</p>	<p>Mae ein Strategaeth y Gymraeg mewn Gofal Iechyd 2024-2029 yn cynnwys camau newydd i orfodi'r asesiad gorfodol o'r holl swyddi gwag mewn perthynas â gallu presennol timau i ddarparu eu gwasanaethau yn Gymraeg. Bydd hyn yn sicrhau bod pob swydd wag yn cael ei hasesu'n briodol ar gyfer eu gofynion Cymraeg a dylai arwain at gynnydd yn nifer y</p>	<p>Cyflwyno ac ymgorffori Strategaeth y Gymraeg mewn Gofal Iechyd a'r offeryn Asesu Swyddi Gwag, a sicrhau eu bod yn cael eu defnyddio'n gywir ac yn effeithiol.</p>	<p>Mae'r offeryn asesu swyddi gwag a ddatblygwyd gan BIAP wedi ennyn llawer o ddiddordeb gan fyrddau iechyd eraill; gall offer tebyg sy'n seiliedig ar hyn gael eu cyflwyno mewn byrddau iechyd eraill yng</p>
----	---	---	---	--	--

			rolau sy'n cael eu hysbysebu fel Cymraeg hanfodol.		Nghymru yn y dyfodol agos.
14	Byddwn yn disgwyl i holl gydweithwyr y GIG a gofal cymdeithasol ddilyn cwrs ymwybyddiaeth ieithyddol, a fydd yn egluro pa mor bwysig yw'r Gymraeg wrth ddarparu gwasanaethau ac fel un o anghenion cleifion. Ar ôl cyflwyno hyfforddiant ymwybyddiaeth o'r Gymraeg i bob gweithiwr proffesiynol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, byddwn yn disgwyl i'r hyfforddiant hwn gael ei ddarparu ym mhob disgyblaeth ar gyfer hyfforddeion, a'i gyflwyno fel rhan o'r broses gynefino i weithwyr newydd sydd heb wneud yr hyfforddiant yn barod. <i>(Tymor canolig)</i>	Cyrff iechyd a gofal cymdeithasol	<p>Mae modiwl ESR Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg wedi bod yn sesiwn hyfforddi ar-lein orfodol i'r holl staff; mae wedi'i gwblhau gan 2283 o'n 2254 o staff presennol, 90% o'r cyfanswm.</p> <p>Mae'r lefel hon o gwblhau yn debyg i fodiwlau hyfforddi gorfodol eraill. Oherwydd bod y cymhwysedd yn dod i ben ar ôl cyfnod penodol o amser, ac oherwydd trosiant staff; felly, nid ydym yn rhagweld y bydd yn ymarferol sicrhau canran sylweddol uwch na hyn yn y dyfodol.</p>	Parhau i sicrhau bod cyfran y bwrdd iechyd sydd wedi cwblhau'r hyfforddiant hwn yn parhau'n uchel.	
15	Bydd y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn datblygu ymhellach eu cynlluniau i gynnig hyfforddiant ar y Gymraeg i'r sectorau iechyd a gofal cymdeithasol, ac yn darparu amgylchedd sy'n galluogi pobl i ddefnyddio'r Gymraeg mewn gweithleoedd. Dylai hyn ategu'r broses anffurfiol o ddysgu iaith drwy adnoddau ac apiau ar-lein	Darparu cefnogaeth ddigonol ar gyfer cynllun o'r fath, gan gynnwys cefnogi cyflogwyr i ryddhau staff allweddol i ymgymryd â	Mewn partneriaeth â'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, mae BIAP wedi hyrwyddo cwrs codi hyder Codi Hyder. Mewn partneriaeth â'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, mae BIAP wedi hyrwyddo cwrs codi hyder Codi Hyder. Mewn	Parhau i hyrwyddo'r cwrs a nodi beth oedd y rhesymau dros y niferoedd sylweddol a wnaeth mynegi diddordeb i ddechrau ond nad ydynt wedyn yn ymgymryd â'r cwrs.	

	<p>a fydd ar gael ar draws y sector. Gellid modelu hyn ar ddatblygiadau a gyhoeddwyd yn ddiweddar ar gyfer y gweithlu addysg. Dylai hyn gynnwys darpariaeth wedi'i theilwra i gefnogi ymarfer ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, a dod o hyd i gyfleoedd (law yn llaw â chyflogwyr perthnasol) i gynyddu hyder staff i ddefnyddio mwy ar eu sgiliau Cymraeg ar ba lefel bynnag yn y gweithle. Rydym hefyd yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried pa adnoddau sydd eu hangen i ddarparu cefnogaeth ddigonol ar gyfer cynllun o'r fath, gan gynnwys helpu cyflogwyr i ryddhau staff allweddol i fynd ati o ddifrif i ddysgu Cymraeg. <i>(Tymor canolig)</i></p>	dysgu Cymraeg sylweddol.	partneriaeth â'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, mae BIAP wedi hyrwyddo cwrs codi hyder Codi Hyder.		
16	<p>Bydd sefydliadau yn diffinio lefel y sgiliau Cymraeg sydd eu hangen ym mhob hysbyseb swydd, yn unol â'r arferion gorau a welir mewn rhai byrddau iechyd ac awdurdodau lleol. <i>(Tymor Canolig (Datblygu a rhannu canllawiau yn y tymor byr)</i></p>	Cyrff iechyd a gofal cymdeithasol	Mae hwn yn barod yn ymarfer safonol yn y Bwrdd Iechyd.	Mae hwn yn barod yn ymarfer safonol yn y Bwrdd Iechyd.	
17	<p>Cyflwyno'n raddol lefel "cwrteisi" sylfaenol o sgiliau Cymraeg, gan wneud staff yn fwy</p>	Cyrff iechyd a gofal cymdeithasol	Effaith gadarnhaol y gall dysgu a defnyddio'r Gymraeg wrth gyrchu gwasanaethau	Erbyn diwedd y cynllun hwn, dylai pob aelod o staff	

	ymwybodol o'r effaith gadarnhaol y gall dysgu a defnyddio'r Gymraeg ei chael ar unigolion sy'n defnyddio ac yn derbyn gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Erbyn diwedd oes y cynllun hwn, dylai pob aelod o staff sy'n gweithio ym maes iechyd a gofal cymdeithasol fod â lefel cwrtais o sgiliau Cymraeg. <i>(Tymor byr - cyflwyno)</i>		iechyd a gofal cymdeithasol a'u derbyn.	sy'n gweithio ym maes iechyd a gofal cymdeithasol fod â lefel cwrtais o Gymraeg.	
18	Bydd sefydliadau'n datblygu ac yn gweithredu strategaeth gweithlu a hyfforddiant sy'n benodol ar gyfer y Gymraeg – gyda phwyslais cychwynol ar fynd i'r afael â bylchau ym meysydd blaenoriaeth allweddol Mwy na geiriau, a'r rheini sy'n ddihyder (angen ystyried y posibilrwydd o weithio gydag arweinwyr tîm / rheolwyr / cyflogwyr hefyd i greu'r amodau i unigolion ddefnyddio eu Cymraeg). <i>(Tymor byr - cyflwyno)</i>	Cyrff iechyd a gofal cymdeithasol	Mae'r gofyniad hwn wedi'i ymgorffori yn ein Strategaeth y Gymraeg mewn Gofal Iechyd, a gymeradwywyd ac a gyhoeddwyd eleni.		Mae Strategaeth y Gymraeg mewn Gofal Iechyd yn cyfuno hyn gyda'r Cynllun Pum Mlynedd dan Safon 110.
Thema 3: Rhannu arfer gorau a dull galluogi					
29	Byddwn yn casglu ac yn rhannu enghreifftiau o arferion da arloesol sy'n bosibl ar draws y sector gan ddefnyddio safleoedd porth a hybiau sydd eisoes yn bodoli, gan gynnwys yr	Llywodraeth Cymru/ Swyddogion y Gymraeg		Cyfrannu at yr ap ymchwil ac arloesi.	

	Hybiau Ymchwilio ac Arloesi. <i>(Tymor byr)</i>				
31	Byddwn yn darparu'r cymorth strwythuredig a'r adnoddau angenrheidiol ar gyfer fforymau rhanbarthol a rhwydweithiau proffesiynol Mwy na geiriau er mwyn cael lle sy'n ei gwneud yn bosibl i ddysgu a rhannu arferion gorau o ran cysondeb gofal ar draws cymunedau, gan roi sylw penodol i integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol. <i>(Tymor Canolig)</i>	Llywodraeth Cymru a Chadeiryddion Fforymau Rhanbarthol, rhwydweithiau clinigol, Colegau Brenhinol, Cymdeithas Gweithwyr Cymdeithasol Prydain	Mae Fforwm Mwy na Geiriau Powys yn parhau i gwrdd i rannu diweddariadau ac arfer gorau ar draws iechyd a gofal cymdeithasol.	Mae Fforwm Mwy na Geiriau Powys yn parhau i gwrdd i rannu diweddariadau ac arfer gorau ar draws iechyd a gofal cymdeithasol.	
32	Byddwn yn sicrhau bod Arweinwyr Gweithredol, Hyrwyddwyr a Swyddogion y Gymraeg yn cwrdd yn genedlaethol i rannu arferion gorau er mwyn sicrhau dull cyson o ymdrin â materion allweddol a datblygu mentrau i ddatllu llwyddiannau, gan gynnwys hyrwyddo Mwy na geiriau mewn cynlluniau gwobrau	Llywodraeth Cymru, Cyrff iechyd a gofal cymdeithasol	Mae swyddogion y Gymraeg yn BIAP yn parhau i gymryd rhan yn y grwpiau GIG Cymru Gyfan perthnasol.	Mae swyddogion y Gymraeg yn BIAP yn parhau i gymryd rhan yn y grwpiau GIG Cymru Gyfan perthnasol.	

	ac anrhydeddau sydd eisoes yn bodoli. (<i>Tymor byr</i>)				
35	Mae arwyddion gweledol nid yn unig yn galluogi defnyddwyr gwasanaethau i wybod pa staff sy'n siarad Cymraeg, maen nhw hefyd yn cyfleu neges bod y Gymraeg yn rhan 'arferol' o'r broses bob dydd o ddarparu gwasanaeth, ac yn adeiladu ar ethos o berthyn. Byddwn yn ymestyn y prosiect Iaith Gwaith ledled Cymru er mwyn i weithwyr sy'n gallu cynnig gwasanaethau'n Gymraeg, neu'n rhannol gynnig gwasanaethau'n Gymraeg, allu dangos hynny'n rhwydd drwy wisgo bathodyn neu laniard Iaith Gwaith. Bydd ein systemau TGCh hefyd yn casglu, yn dangos ac yn rhannu gwybodaeth sy'n rhoi gwybod i ni fel unigolion a staff pwy sy'n gallu siarad Cymraeg a pha wasanaethau y byddan nhw'n eu cynnig yn Gymraeg – er mwyn i ni allu defnyddio ein Cymraeg gyda nhw. (Mae'n bosibl bydd angen cyllid/adnoddau ychwanegol er mwyn cyflawni hyn) (<i>Tymor byr</i>)	Llywodraeth Cymru / Iechyd a Gofal Digidol Cymru / Cyrff iechyd a gofal cymdeithasol	Mae'r rhain yn cael eu hyrwyddo ar draws y bwrdd iechyd fel arfer safonol mewn sesiynau ymsefydlu, hyfforddiant ymwybyddiaeth y Gymraeg, hyfforddiant Cymraeg mewn Gofal Iechyd i Reolwyr. Nid yw BIAP yn comisiynu'r systemau TGCh yn uniongyrchol a fyddai'n galluogi hyn (ESR, Microsoft Office) sy'n cael eu caffael ar sail Cymru Gyfan.	Parhau i hyrwyddo ar draws y bwrdd iechyd fel arfer safonol mewn sesiynau ymsefydlu, hyfforddiant ymwybyddiaeth y Gymraeg, hyfforddiant Cymraeg mewn Gofal Iechyd i Reolwyr.	

37	Byddwn yn datblygu ymhellach adnoddau geiriadurol, corpws terminoleg o safon uchel, systemau cof iaith ac adnoddau ymarferol i helpu staff i ddefnyddio eu sgiliau Cymraeg, er enghraifft Gair i Glaf. Yn y tymor byr, bydd hyn yn cynnwys swyddogion y Gymraeg a chyfieithwyr yn cydweithio ar gasglu a chyfuno termau ynghyd â gallu a chapasiti cyfieithu (<i>Tymor byr - gweithio ar y cyd ar ddatblygu termau safonol</i>)	Llywodraeth Cymru / Cyrff Iechyd a Gofal cymdeithasol	Mae uned gyfieithu Bwrdd Iechyd Addysgu Powys yn cydweithio â chyrff eraill GIG Cymru wrth rannu cofau cyfieithu; byddwn yn cymryd rhan mewn ymarferiad dan arweiniad Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru i gaffael ateb Cymru Gyfan i feddalwedd cof cyfieithu.		
<p>Sylwadau ychwanegol / cyffredinol (ehangwch y blwch yn ôl yr angen)</p> <p>Mae BIAP wedi ymgorffori gofynion y Fframwaith Mwy na Geiriau ochr yn ochr â Safon y Gymraeg 110 yn ei Strategaeth y Gymraeg mewn Gofal Iechyd, a gymeradwywyd yn ystod 2023-24 ac a gyhoeddwyd ar-lein yn fuan ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol. Bwriad y strategaeth hon yw llywio a chyfarwyddo ein dull o ymdrin â'r Gymraeg ar draws y bwrdd iechyd.</p>					

Symud Ymlaen: Ein Blaenoriaethau ar gyfer 2024-25

Mae ein Strategaeth newydd ar gyfer y Gymraeg mewn Gofal Iechyd yn nodi ein blaenoriaethau a'n targedau dros y pum mlynedd nesaf o ran gwella sgiliau Cymraeg ein gweithlu, a fydd yn ei dro yn gwella ein gallu i gydymffurfio â'r safonau.

Mae blaenoriaethau penodol dros y cyfnod nesaf yn cynnwys:

- Sefydlu system teleffoni newydd yn briodol, a dylunio a gweithredu'r prosesau llif galwadau.
- Cwblhau'r holl gamau gweithredu eraill a nodwyd mewn ymateb i'r ddau ymchwiliad gan Gomisiynydd y Gymraeg.
- Parhau i gynnig hyfforddiant i Reolwyr.
- Cyflwyno'r offeryn Asesu Swyddi Gwag a monitro'r canlyniadau.
- Ailedrych ar y broses ar gyfer asesu polisïau am eu heffaith ar y Gymraeg fel rhan o adolygiad ehangach o weithdrefnau Dogfennau Ysgrifenedig BIAP a'i brosesau Asesu Effaith ar Gydraddoldeb.

Mae'r golofn 'Camau Gweithredu Arfaethedig yn ystod 2024-25' yn yr adran uchod yn awgrymu llwybrau gwaith pellach yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf.

Am fwy o wybodaeth ar fanylion yr adroddiad hwn ac am ragor o wybodaeth am sut mae BIAP yn gweithredu Safonau'r Gymraeg, cysylltwch â thîm Cydraddoldeb a'r Gymraeg drwy e-bostio powys.equalityandwelsh@wales.ns.uk.